# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 221 Pris £1 Mis Ebrill 2020



# Evan James 1809-1878

# PWYLLGOR A SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W.Williams, Dilys Williams,

**Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni **Gwefan:** menaerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygdd@papurcwmni.cymru/ benamay2000@yahoo.co.uk

**Argraffu Tower Print, Uned 12a,Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas ,Caerffili, CF83 8DW**

## Y Papur Bro a'r Argyfwng

Beth bynnag arall sy'n dod i ben yn ystod y firws, rydym yn dal i gyhoeddi "Cwmni" - ond, er hynny, rydym yn teimlo effaith yr argyfwng.

Oherwydd y cyfyngiadau diweddaraf ni allwn yrru copïau allan gyda'n dosbarthwyr ac, felly, dim ond drwy e-bost fyddwn yn dosbarthu ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd iddo ar dudalen gartref Menter Iaith drwy wasgu ar lun icon "Cwm*ni*" (gweler uchod). Gan fod yr ysgolion ar gau, byddwn yn cynnig gwasanaeth ar-lein iiddynt a chânt eu cyflenwad arferol, fel pawb arall, pan ddychwel normalrwydd.

Anhawster arall sydd yn ein hwynebu yw prinder deunydd gan na fydd yr ysgolion yn gallu cyfrannu a does dim digwyddiadau i'w hysbysebu nac i roi adroddiadau amdanynt. Felly, apeliwn at ein darllenwyr am erthyglau i lenwi'r bwlch. Beth am ysgrifennu am eich "Gwers Orau Erioed", Gwyliau Neilltuol, Pwt o Hanes, Atgofion yr hoffech eu rhannu? Neu oes gennych luniau yr hoffech eu rhannu â'ch cyd-ddarllenwyr?

## LLYTHYR GAN EIN CYNGHORAU CYMUNEDOL

Annwyl gyfeillion,

Rydym ni fel Cynghorwyr Cymuned a Threfol yn ardal Caerffili yn ysgrifennu atoch i'ch annog i gadw eich hunain a'ch teuluoedd yn ddiogel yn ystod y cyfnod o argyfwng yma tra bod y firws COVID-19 ar led.

Rydym yn gofyn yn garedig i chi ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym hefyd yn gwybod fod yr argyfwng yma yn creu gofid o fewn ein cymunedau, a byddem yn ddiolchgar petaech yn ymddwyn yn garedig ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gyda'ch cymdogion. Os oes modd diogel i chi wirfoddoli i helpu'r rhai bregus mewn cymdeithas mae nifer o ffyrdd i gysylltu, ar Facebook, drwy roi nodyn drwy ddrws eich cymdogion, gwefannau arbennig neu godi'r ffôn gyda ffrindiau sydd wedi hunan-ynysu i ofyn a oes arnynt angen unrhyw help. Y prif beth fodd bynnag yw eich bod yn cadw eich hunain yn ddiogel drwy beidio â chymryd risgiau diangen.

Mi allwch gysylltu â'ch cynghorwyr cymuned am gyngor yn y ffyrdd arferol ac mi wnawn ymdrechu i'ch helpu lle y gallwn. Mewn argyfwng fel hwn mae'n galonogol gweld cymunedau yn cyd-dynnu a gweithio i edrych ar ôl y rhai mwyaf bregus.

Cadwch eich hunain yn saff.

Yr eiddoch yn gywir,

Cadeirydd y Cynghorau Cymunedol, CC Penyrheol, Trecenydd a Genau'r-glyn, CC Llanbradach, Cyngor Tref Caerffili, CC Cwmaber, CC Gelligaer, CC Rhydri, Draethen a Waterloo, CC Y Fan.

# Cofeb Deilwng – o'r Diwedd!

Byddwn ni i gyd wedi sylwi ar gofeb hardd sydd wedi'i gosod ben uchaf maes parcio'r Twyn yng Nghaerffili. Cofeb yw hi i un o feibion enwocaf y sir, Evan James. Ie, yng Nghaerffili ganed awdur ein Hanthem Genedlaethol yn 1809. Gwelodd olau dydd am y tro cyn-taf mewn bwthyn sydd bellach wedi'i ddymchwel ond a safai mewn rhes yng nghysgod deheuol Neuadd y Gweithwyr yn Stryd y Castell. Gosodwyd plac glas ar dalcen y neuadd i nodi pwysigrwydd y safle. Symudodd y teulu o'r ardal pan oedd Evan ond pedair blwydd oed i'r Ancient Druid yn Argoed. Ganed James, y mab, yno yn 1832 yn un o saith o blant. Symudodd y teulu i Bontypridd yn 1847 i redeg ffatri wlân ar lannau'r afon Rhondda, yn agos i lle mae Ysgol Gymraeg Evan James erbyn hyn. Bu Evan yno tan ei farwolaeth yn 1878. Gadawodd James Bontypridd am Aberpennar ac yna i Aberdâr yn 1893 lle bu farw yn 1902.



*Y cerflun yng ngweithdy'r cerflunydd*



*Geiriau'r anthem wedi'u cerfio*

Cyfansoddwyd ein Hanthem Genedlaethol ym mis Ionawr 1856, fel y gwelir ar y copi cynharaf sydd mewn bodolaeth, dogfen sydd nawr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Does dim sicrwydd, fodd bynnag, ai'r dôn neu'r geiriau a ddaeth yn gyntaf, ond mae'n gwbl hysbys, mai Evan (Ieuan ap Iago) y tad ysgrifennodd y geiriau a'i fab, James y telynor, yr alaw. Ystyrir yr anthem ymhlith y mwyaf angerddol yn y byd.

Gwnaeth gwŷr Pontypridd lawer o'u cysylltiad â'r bardd a'i fab am iddynt ysgrifennu "Hen Wlad fy Nhadau", gan sefydlu cofeb hardd ym Mharc Ynysangharad y dref yn ystod yr 1930au. Digon teg, gan mai yn y dref honno y cyfansoddwyd ein hanthem. Ond, cofiwn hefyd i deulu'r Jamesiaid fyw yn Ffos yr Hebog ar Gomin Gelligaer ac yn nhafarn yr Hen Felin sydd bellach yn adfail dan gysgod traphont Bargoed ar lannau'r Rhymni. Bu grwpiau lleol yn dathlu 200 mlwyddiant geni Evan James yn ystod 2009. Cynhaliwyd cyflwyniadau yn y Clwb Rygbi gerllaw ei fan geni ac wedyn yn yr amgueddfa wrth bont enwog Pontypridd.

Gosodwyd cofeb ym Mharc Dafydd Williams yn 2009, ond gan mai ar weddillion sycamorwydden oedd hi, dirywiodd a bu'n rhaid ei dymchwel yn 2017. Gadawodd hyn y dref yn amddifad o goffadwriaeth i'n mab disgleiriaf. Dyna pryd camodd aelodau Cyngor Tref Caerffili i mewn a phenderfynu ei bod yn hen bryd i Evan James gael cofeb deilwng. Os ydym i gofio Tommy Cooper a Malcolm Uphill mae siŵr o fod yn bwysicach cofio Evan James.



*Yr hen gerflun ym Mharc Dafydd Williams*

Y Cynghorwyr James Fussell, Huw Jackson a Colin Elsbury oedd ar flaen y gad ynghyd â'u cyd- gynghorwyr. Cawsant gefnogaeth Phil Davey, Clerc y Cyngor a Ryland Llewelyn a Steve Wilcox o'r Cyngor Bwrdeistref.

Wedi sicrhau caniatâd cynllunio i osod y cerflun yn y man mwyaf addas, aethpwyd ati i fynd ar ofyn nifer o gerflunwyr Cymreig. Cafwyd ymateb gan bedwar ac, yn y diwedd, Rubin Eynon gafodd y fraint o gyflawni'r dasg o lunio'r cerflun. Bwriadwyd cynnal seremoni ddadorchuddio'r gofeb ddiwedd mis Mawrth, yng nghwmni côr meibion ond, wrth gwrs, bu'n rhaid gohirio. Edrychwn ymlaen at y seremoni pan ddaw'r argyfwng hwn i ben.

# SS Geriatrica

Wn i ddim pa mor ddoeth oedd hi i fynd ar fordaith i ddathlu pen blwydd yn 70, a hynny i Wlad yr Iâ ar ddechrau mis Mawrth. Dydy Gwlad yr Iâ ddim yn nodedig am dywydd fflip-fflops ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Ar ben hynny mi oedd dinistr firws y goron wedi hen ddechrau cymryd gafael, yn arbennig ar leinars moethus fel y Crown Princess yn Japan, a honno yr argymhellodd Trump y dylai hi aros ar y môr ymhell o lan Califfornia. Efallai na chaem ni ddod yn ôl ac y byddwn i a'r wraig yn garcharorion mewn ystafell am fisoedd. Tri mis mewn cell? Mi fydden ni wedi lladd ein gilydd, siŵr braidd, os na fyddai'r firws wedi'n cael ni gyntaf. Ond mi aethon ni. Gweld Llewych y Gogledd oedd yr atyniad. Hwyliodd y Magellan o Tilbury ar Fflat Huw Puw ar y pedwerydd o Fawrth, a ninnau arni.

Doedd y ciw i fynd ar y bad ddim yn argoeli'n dda gyda mwy o zimmers a chadeiriau olwyn nag yn Ysbyty'r Tywysog Charles ac roedd darganfod rhywun dan 70 yn sialens. Dydy'r Magellan ddim y llong fwya na'r un fwya moethus ar y môr ond mae hi'n ddigon derbyniol ac mae'r bwyd yn ardderchog a digon ohono i fagu bloneg sylweddol cyn dod adref. Roedd ganddon ni ffenest go lew yn ein caban a gallem wylio dociau afon Tafwys yn mynd heibio wrth ymadael. Rotterdam oedd yr angorfa gyntaf i gasglu mwy o bensiynwyr, rhai'r Iseldiroedd y tro hwn. Bobol, dyna i chi beth ydy dociau gyda chan-noedd o gychod anferth wedi angori yno. Wedyn ymlaen tua Ynysoedd y Ffaro. (Wyddwn i ddim fod yr Eifftiaid wedi teithio mor bell. Dim camel yn unman, ha ha!)

Dyna beth yw lle anial, di-goed, glawog, oer, ag affliw o ddim diddordeb mewn rygbi er bod Cymru'n chwarae Lloegr y diwrnod hwnnw. Darganfyddais dafarn yn Torshavn oedd yn fodlon tiwnio eu teledu i weld y gêm. Methiant oedd y tiwnio a bu'n rhaid i mi wrando ar y gêm ar y ffôn. £7.00 y peint! Rhaid bod y trigolion yn bobol gerwin ar y naw ydy'r atgof sy gen i o'r lle a'i phobl. Ddim yr ymweliad mwyaf llwyddiannus! Ymlaen i Wlad yr Iâ gyda'r gwynt yn dechrau codi. Penderfynodd y capten mai doeth fyddai rhoi gorchudd dros y ffenest yn darian rhag rhyferthwy'r môr. Dim golygfa trwyddi felly. Siom, ond roedd y tonnau wedi malu un ffenest a bron boddi rhai pobl ar fordaith flaenorol.

Roeddwn i wedi bod i Reykjavik o'r blaen a hynny ym mis Ionawr pan oedd hi'n gwawrio tua 11.00 y bore ac yn dywyll eto erbyn 3.00 y prynhawn. Roedd y dyddiau wedi ymestyn cryn dipyn erbyn i ni gyrraedd. Doedd hi ddim yn arbennig o oer yr adeg honno chwaith, gydag effaith y môr yn cadw'r lle yn gymhar-ol gynnes. Y tro hwn roedd gwynt o ryw 30 milltir yr awr yn dod yn syth o begwn y gogledd yn gwireddu enw'r wlad ac yn mynd yn syth rhwng yr asennau. Bodlonais i ar eistedd ac yfed coffi tra roedd y wraig, sy'n fwy mentrus a ffit na fi, yn sbecian rownd y lle. Ond y noson honno, o fwrdd y llong gyda bylchau sylweddol yn y cymylau fe'u gwelon ni nhw, y llewych yn dawnsio uwch ein pennau. Wow! Roedd hynny'n dic sylweddol yn y bocs.Dau ddiwrnod ar y môr i



***O'r prom yn Reykjavik. Awydd nofio?***

ynysoedd y Shetland. Mordaith a hanner a'r môr yn berwi, gyda'n '*entrées*' a'n pwdinau'n hyrddio ar draws byrddau'r bwyty. Roedd y bobl yn cerdded ar ogwydd ar hyd y coridorau mewn llinellau igam-ogam. Torrodd un fenyw ei chlun ag un hyrddiad a lluchiwyd sawl un o'i wely yn yr ystafelloedd crandiaf ar y dec uchaf (ha ha) a synnwn i ddim fod sawl un wedi gweld ei ginio eto. Roedd cyrraedd Lerwick ar fore di-wynt, heulog o wanwyn yn falm. Taith wedyn ar fws mini rownd rhan o'r ynys ddi-goed hon, heibio i foelydd, llynnoedd môr di-rif ac anheddau a phen-trefi anghysbell a cawsom de a theisen yn y caffi mwyaf unig yn y byd. (Mae'n orfodol i bensiynwyr sôn am beth gawson nhw i'w fwyta.)

# Atgyfodi Lasarus

Roeddwn i'n eistedd wrth ddesg cyn-gyfarwyddwr Gwasg Gomer wedi iddo ymadael i borfeydd gwelltog Cymdeithas Merlod Cymru ac yn meddwl, 'bobol mi faswn i wrth fy modd yn ceisio dod ag anadl newydd i'r wasg yma,' un oedd wedi bod yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg ers 127 o flynyddoedd. Ond rydw i'n byw yn y lle anghywir, yn llawer rhy hen ac roedd y penderfyniad wedi ei wneud i gau'r swyddfa yng Nghaerfyrddin beth bynnag. Tristwch mawr i ddarllenwyr ac awduron Cymru oedd colli 'Penguin' y byd cyhoeddi Cymraeg ond roedd y sgrifen wedi bod ar y wal ers talwm pan ddiswyddwyd llawer o'r staff hynod dalentog oedd yn gweithio yno, dros flwyddyn yn ôl. Roedd hi'n siom bellach i mi, gan y byddwn yn colli'r wasg oedd wedi cyhoeddi'n stwff i.

'Ond hei,' medde fi, 'mae gen i wasg yn barod, Gwasg G.Ap.' Dydy hi ddim wedi bod yn arbennig o brysur yn ddiweddar a chyhoeddi deunyddiau addysgol oedd hi'n wneud beth bynnag, ond mae'r cyfundrefnau gen i o hyd ac mi ydw i'n dal i ddallt y dalltins yn go lew. Mi allwn i ei hatgyfodi.

Reit, sut? Wel, mi ydw i'n rhan o glwb darllen Cymraeg yn llyfrgell Caerffili ac mae yna lot o bobol hynod glyfar a diwylliedig yn y grŵp. Be am ddod â nhw i mewn i'r potes? Ia wir.

Maen nhw wedi cytuno i fod yn ddarllenwyr beirniadol ac mae Ann Lewis (sydd â meddwl fel rasel) wedi cytuno i fod yn olygydd. Mae dylunydd gen i ac mae Tower Print o Gaerffili yn mynd i argraffu. Y Cwbwl fydd rhaid i mi wneud ydy gwneud ceisiadau i'r Cyngor Llyfrau pan ddaw llawysgrifau, derbyn arian a thalu pobol wedyn. Digon hawdd? Felly dyma atgyfodi Lasarus, a'r enw newydd ydy Gwasg y Tŵr Cam. Fyddai o i ddim yn cyhoeddi fy ngwaith fy hun, cofiwch. Fyddai hynny ddim yn cŵl!

Os ydych chi'n awdur o fri neu'n las-awdur, cysylltwch: bocspostgap@btinternet.com

Cawn fwynhad wrth lenwi peth o'r bwlch cyhoeddwyr yn Ne Cymru.

*Gareth W. Williams*

## S.S.Geriatrica (parhad)

Peint wedyn mewn bar ar y cei a barman o Hwngari allai ddiolch i mi yn Gymraeg! (Fasech chi byth yn gallu ei wneud o i fyny.) Clywed bod alcoholiaeth a chyffuriau yn broblem yn yr ynys bellennig hon fel pobman arall. Yn ôl i'r llong wedyn.

Ynys Erch (Orkney) oedd ein cyrchfan nesaf ond daeth llais y capten dros yr uchelseinydd wrth i ni blannu i'n ciniawau fin nos yn ein hysbysu na châi'r ynys bleser ein cwmni a'n bod ni'n dychwelyd yn syth i Tilbury cyn iddyn nhw gau'r porthladd. Nos Wener oedd hi a minnau wedi dod â nghrys Rygbi Cymru i eistedd yn dalog mewn tafarn yn Kirkwall i wylio Cymru'n chwarae'r Alban y diwrnod wedyn. O wel! Cafodd y gêm ei gohirio beth bynnag. Roedd cwmwl y firws yn dwysau. Doedd dim achos o haint Covid19 ar y llong y gwyddem ni amdano a gallem ei gadael i eithrio gartref o leiaf.

Trip anghofiadwy cofiadwy!

*Gareth W. Williams*

# MAE CASTELL RHIW'RPERRAI DAN BERYG!



Gall trawsnewid y Stablau a'r Bothy yn Rhiwperra mewn i fflatiau a newid y stordy'r gegin mewn i glwydfan ystlumod newydd efallai edrych yn iawn, ond dyma 4 prif rheswm pam dyle fe ddim mynd ymlaen:



Nifer o bobl yn byw ar y safle yn mynd i niweidio bywyd gwyllt - enwedig ystlumod sydd yn casáu golau a sŵn gan adeiladau a cheir sy'n symud yn ystod y nos.

Mae y castell mewn cyflwr "gwael iawn" (yn nôl cofrestr cyngor Caerffili "Dan Beryg") eto does dim cynllun i'w drwsio.



Bydd y gwaith yn cynnwys torri coed, ond mae angen mwy o goed i leihau'r effaith o'r argyfwng hinsawdd.



Gwaith i unrhyw adeiladau hanesyddol yn dod a risg o dân (fel digwyddodd yng Nghefn Mably sydd cyfagos).

**Faint ohonom ni fydd yn wylo pan fydd ein cefn gwlad ac ein hanes yn cael ei cholli a ddim yn gallu dod yn nôl?**

## OS YDYCH YN BYW YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI DWEDWCH WRTH EICH CYNGHORWR SIROL I

# WRTHOD Y CEISIADAU YMA!

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma?



Yn y chwilair mae UN AR DDEG o bethau sy'n wyrdd. Allwch chi ddod o hyd iddynt?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | P | I | G | O | G | L | Y | S | A |
| P | A | N | I | N | N | E | C | B | C |
| CH | R | R | D | E | DD | Y | LL | N | S |
| U | O | A | W | Y | A | B | D | Y | F |
| B | T | FF | F | G | I | H | T | L | G |
| R | C | M | P | A | O | E | R | W | RH |
| E | TH | E | FF | LL | L | W | A | N | P |
| S | R | O | N | E | L | I | E | D | S |
| Y | Y | CH | G | I | R | S | H | I | L |
| CH | M | P | H | W | N | Y | LL | D | N |

PAROT CENNIN BRESYCH

SPIGOGLYS PYS GELLYG

GWAIR DEILEN FFA

AFAL LETYS

Mae'r atebion i'w gweld
ar dudalen 15

# "Myfi, Iolo"

Methodd mwyafrif Clwb Darllen Cwmni â dod i gyfarfod mis Mawrth am wahanol resymau. Ond roedd bron pawb yn awyddus i fynegi barn am y llyfr a oedd wedi'i ddewis sef, "Myfi, Iolo" gan Gareth Thomas. A doedd dim taw ar eu penderfyniad i ddweud eu dweud a gwnaed hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd un aelod yn ddiolchgar am gyfrol ddarllenadwy oedd yn portreadu'r cymeriad rhyfeddol hwnnw, Iolo Morganwg. Gwerthfawrogodd y rheswm a roddwyd pam oedd y saer maen o Drefflemin yn y Fro am fynd ati i ysgrifennu barddoniaeth ar lun gweithiau Dafydd ap Gwilym. Y gwir amdani oedd bod Iolo bob amser yn brin o arian a gallai ond gwerthu ei farddoniaeth drwy ddynwared gwaith y bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'n hynod nodi y bu gwŷr academaidd wrthi am dros ganrif yn ceisio penderfynu pa gerddi a ysgrifennwyd gan Iolo a pha rai gan Dafydd.

Credai un arall fod y llyfr yn eistedd yn anghyffyrddus rhwng bod yn nofel a bod yn llyfr hanes. Credai fod y ffaith fod yna ddiffyg plot yn gwneud y llyfr yn anodd ei ddarllen fel nofel.

Dywedodd aelod arall fod y nofel yn rhoi darlun byw iawn o gymeriad Iolo ac y "dylai ei wraig fod wedi rhoi crasfa iddo". Dywed hefyd fod y cefndir yn ddiddorol a'r naratif yn llifo. Braidd yn rhy hir efallai a chan nad oes llawer o stori, byddai wedi bod yn llawer gwell heb y gweledigaethau laudanum.

Llyfr Gwen Parrot, "Gwawr Goch ar y Gorwel", ddewiswyd ar gyfer mis Ebrill. Fydd dim cyfarfod ond beth am ddanfon adolygiad at olygydd Cwmni os ydych wedi darllen y llyfr?

*Mary Jones*

# Bolsieficiaid Bedlinog

Heddiw mae pentref bychan Bedlinog yn enwog fel man geni Gwilym Davies (1878 -1955), sylfaenydd Neges Heddwch Plant Cymru i Blant y Byd a'r person cyntaf i ddarlledu yn y Gymraeg. Ond nid pentref heddychlon oedd Bedlinog ei hun yn ystod oes Gwilym Davies.
Er bod golwg wledig ar yr ardal heddiw, y diwydiant glo oedd y rheswm dros ddatblygiad Bedlinog. Suddwyd pwll Nantwen ym 1878 a phwll Bedlinog ei hun ym 1881. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd y ddau, a'r gweithfeydd llai yn yr ardal, yn eiddo i gwmni Guest, Keen and Nettlefold.



*Man geni Gwilym Davies,*
*gyda phlâc i'w goffhau uwchben y drws*

Nid oes rhaid disgrifio amodau gwaith glowyr i ddarllenwyr Cwm*ni*, ond efallai ei fod yn werth nodi bod pwll Bedlinog yn arbennig o ddwfn, yn boeth a llychlyd hefyd. Roedd Nantwen yn bwll gwlyb iawn. Roedd menywod a merched yn gweithio ar wyneb y pyllau tan ddechrau'r ugeinfed ganrif. Nid yw'n rhyfedd i gymuned glos ddatblygu yn y pentref. Roedd hi'n gymuned radical hefyd, ac un chwaraeodd ei rhan yn hanes gwleidyddol Cymru. Ym 1921 daeth Comiwnyddiaeth i Fedlinog.

Er i Karl Marx gyhoeddi'r *Maniffesto Comiwnyddol* ym 1848, ni chafodd ei syniadau fawr o lwyddiant nes i'r Bolsieficiaid gipio grym yn Rwsia ym 1917. Dan ddylanwad y chwyldro mawr hwnnw daeth nifer o grwpiau Comiwnyddol at ei gilydd ym 1920 i ffurfio Plaid Gomiwnyddol Prydain. Roedd hon yn adeg gythryblus iawn yn hanes diwydiannol y wlad.
Pan gynhaliwyd is-etholiad Caerffili ym 1921, yn dilyn marwolaeth Alfred Onions, yr A.S. Llafur, penderfynodd y blaid ifanc ymladd ei hetholiad seneddol cyntaf. Dewiswyd Bob Stewart i'w chynrychioli, er gwaetha'r ffaith ei fod o'r Alban, heb unrhyw gysylltiad â Chymru na'r diwydiant glo. Ond bu'n weithgar yn y mudiad llafur a'r mudiad dirwest yn yr Alban ac yn ymgyrchydd effeithiol iawn.

Yn ôl yr hanes, cafodd y Blaid Gomiwnyddol drafferth mawr wrth geisio cynnal ei hymgyrch. Ei phrif wrthwynebydd oedd y Blaid Lafur. Gwrthododd clerc y cyngor roi'r dogfennau etholiadol angenrheidiol iddynt, na chopi o'r gofrestr etholwyr. Cawsant anhawster i logi ystafelloedd i gynnal cyfarfodydd. Fel canlyniad, rhai awyr agored oedd y cyfarfodydd Comiwnyddol, ac, yn ôl y *Weekly Worker*, cylchgrawn y blaid, ymhen dim amser roedd plant Caerffili'n canu'r *Internationale* a gweiddi "Up the rebels!" yn y strydoedd.

Serch hynny, colli'r etholiad wnaeth Bob Stewart, ond mae'n amlwg iddo ef, neu ei syniadau, ennill calonnau rhai o drigolion hŷn Bedlinog yn ogystal â'u plant. Yn ystod yr ymgyrch chwerw ymddiswyddodd holl aelodau pwyllgor y Blaid Lafur yno, gan ymuno'n syth â'r Blaid Gomiwnyddol.

Does dim sôn am y dyddiau cythryblus a chyffrous hynny ym Medlinog heddiw, ac mae golwg druenus ar Neuadd y Gweithwyr yno. Ond mae'r geiriau ar y plac uwchben y drws yn tystio i'w hanes. Mae'n nodi i'r Neuadd gael ei hadeiladu gyda chronfa a gasglwyd gan weithwyr pyllau glo Bedlinog a Nantwen rhwng 1911 – 1916, ynghyd ag ymdrechion y cyhoedd, a rhodd o £100 gan bwyllgor Eisteddfod Bedlinog. Agorwyd y Neuadd ym 1936. Byddai rhai oedd yno'r diwrnod hwnnw'n cofio'r chwyldro Bolsieficaidd yn eu cymuned, ac, efallai, ymhlith y rhai a ymunodd â'r Comiwnyddion.



*Neuadd y gweithwyr heddiw*

## MIRI RHIANNON HOPKIN





Daeth gwên fawr i’r teulu pan anwyd merch fach yn ddiweddar i Aled ac Eleri Hopkin a chwaer fach i Deio. Ganwyd Miri ar Ionawr 17eg 2020.

Y mae’r teulu wedi ymgartrefu yng Nghwm Calon, Ystrad Mynach ac y mae pawb yn ystyried Miri yn fabi glanha’r cwm!

Mae mam-gu a thad-cu Llantrisant sef Dr Mair Hopkin ac Owen Hopkin a mam-gu Dilys Williams a thad–cu Alun Williams Cwm Rhymni wrth eu boddau.

Digon o waith gwarchod o’n blaenau!

# Disgyblion yn wên o glust i glust



Roedd gan blant reswm i wenu pan ddaeth gwersi brwsio dannedd llawn hwyl i'w hysgol. Fe wnaeth disgyblion Ysgol Penalltau sgwrio eu dannedd yn lân fel rhan o'r Cynllun Gwên cenedlaethol.

Mewn ‘gorsafoedd brwsio dannedd’ arbennig hylaw yn yr ysgol, cafodd y plant eu dysgu sut i frwsio eu dannedd am hyn a hyn o amser. Fe wnaethon nhw hefyd ddysgu am bwysigrwydd hylendid deintyddol ac effeithiau'r bwyd rydyn ni'n ei gnoi.

Cafodd y plant becynnau brwsio dannedd arbennig i fynd adref gyda nhw. Yn y pecyn roedd llyfr am ofal deintyddol, gêm a thegan anwes “Dai Dannedd”, sef draig â dannedd enfawr.

Mae'r Cynllun Gwên yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd deintyddol plant yng Nghymru. Mae mwy na 6,000 o blant ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wedi cymryd rhan yn y cynllun ers ei lansio ddegawd yn ôl. Mae'r cynllun yn cynnwys sesiynau brwsio dannedd yn yr ysgol i helpu amddiffyn dannedd ifanc rhag pydru.

Meddai Dirprwy Bennaeth Ysgol Penalltau, Lowri Owen: “Mae Ysgol Penalltau wedi bod yn rhan o'r Cynllun Gwên ers chwe mlynedd. Rydyn ni'n rhoi bag Dai Dannedd i'r plant yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 2 i fynd adref gyda nhw ar y penwythnos. Yn y bag mae'r ddraig, Dai Dannedd. Mae'r bag hefyd yn cynnwys llyfrau am frwsio dannedd y gall y plant eu darllen gyda'u rhieni. Mae hefyd frws dannedd bach a gêm brwsio dannedd.”

Meddai'r Cynghorydd Barbara Jones, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad: “Pwysigrwydd hylendid deintyddol yw un o'r gwersi pwysicaf y gall plant eu dysgu. Drwy'r Cynllun Gwên, mae plant ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhoi rheswm i ni i gyd edrych yn hapus.”

*Codwyd o safle Newyddion Ar-Lein y Cyngor Sirol*

# Senedd Ieuenctid

Wedi i ni gyflwyno cynrychiolwyr Sir Caerffili yn y Senedd Ieuenctid yn ein rhifyn blaenorol, dyma bwt am sut y daeth y Senedd honno i fodolaeth a sut y caiff ei threfnu. Sefydlwyd y Senedd Ieuenctid yn Rhagfyr 2018 ar gyfer pobol ifanc Cymru sydd rhwng 11 a 18 mlwydd oed . Er mwyn bod yn ymgeisydd roedd rhaid cyflwyno cais ar-lein drwy i'r ymgeisydd gobeithiol gyflwyno ei (h)enw a nodi pa etholaeth y mae'n byw ynddi. Wedyn roedd galw ar i'r darpar ymgeiswyr nodi eu tair prif ystyriaeth gan ysgrifennu darn amdanyn nhw ei hunan. Gwelwyd yr amcanion hyn yn ein herthygl flaenorol pan gyflwynwyd ein Haelodau Cynulliad yr Ifanc . Mae'r manylion hyn yn dal ar Wefan Senedd yr Ieuenctid.

Yna roedd gwahoddiad i bobol ifanc o'r un oed bleidleisio ar e-byst yr ymgeiswyr. Mae galw ar y sawl sydd am bleidleisio fod â'u henwau ar restr etholiadol pobol 11 - 18 oed. Er mwyn gwirio hyn rhaid iddynt roi eu dyddiad geni, eu cod post a gyrru eu pleidlais at e-bost yr ymgeisydd. Bu mwy na 2,000 o blant a phobl ifanc dros Gymru yn cymryd rhan yn yr etholiadau cyntaf.

Amserlen sefydlu'r Senedd oedd: Cofrestru i bleidleisio rhwng yr 28ain o Fai a'r 16eg o Dachwedd 2018. Yna, cynhaliwyd yr etholiadau rhwng y 5ed a'r 25ain o Dachwedd 2018. Cyhoeddwyd canlyniadau'r etholiad hwnnw ar y 5ed o Ragfyr.Pan ddatguddiwyd sawl ymgeisydd oedd wedi cynnig eu henwau bu'n rhaid dewis o'u plith. Gwelwyd fod 6 yn erbyn Ffion Griffith ar gyfer etholaeth Islwyn ac 8 yn erbyn Aled Joseph yng Nghaerffili. Roedd pobol ifanc o bob rhan o'r sir â'r hawl i bleidleisio


Disgwylir i'r sawl a etholwyd fynychu digwyddiadau gwleidyddol ond fel unigolion gan gadw'n wleidyddol niwtral eu hunain. Cymerodd y ddau ddiddordeb byw yn yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr y llynedd. Mantais i Ffion oedd fod Ffug Etholiad wedi'i chynnal ar safle Gellihaf. Manteisiodd felly ar y cyfle i gysylltu â'r ymgeiswyr a yrrodd eu llenyddiaeth etholiadol ati. Hefyd, mae wedi bod mewn cysylltiad â Rhianon Passmore, Aelod Cynulliad Islwyn.Mae'r ddau yn ymwybodol mai Dr Hefin David yw Aelod Cynulliad Caerffili a hefyd bod Delyth Jewell, Aelod Rhanbarthol Dwyrain De Cymru, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.



Does dim Aelodau Cynulliad rhanbarthol yn y Senedd Ieuenctid fel y ceir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Dim ond 4 rhanbarth sydd gan yr Ieuenctid o gymharu â 5 y prif Gynulliad, sef De Ddwyrain, De Orllewin, Gogledd a Chanolbarth. Caiff pedwar deg Aelod eu hethol yn uniongyrchol fel sydd yn y Cynulliad ond nid yw'r ugain arall yn cael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol. Yn hytrach, enwebir aelodau partner o fudiadau fel yr Urdd, Fforwm Iaith Sirol, Barnado, Talking Hands ac ati er mwyn ceisio cynnwys amryw grwpiau ag anghenion neilltuol. Ond does neb yn cael eu hethol ar sail eu haelodaeth o bleidiau gwleidyddol.

**Cynrychiolaeth Gyfrannol**

Mewn etholiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol etholir un Aelod Cynulliad ar gyfer pob un o'r 40 etholaeth sydd yng Nghymru. Wedi pleidleisio dros eu dewis etholaeth ( y "first past the post"), mae pawb wedyn yn bwrw ail bleidlais ar gyfer eu cynrychiolwyr rhanbarthol, h.y. dros blaid neu unigolyn. Ar gyfer cynrychiolaeth gyfrannol rhennir y 40 etholaeth yn 5 rhanbarth gyda phob rhanbarth yn cynnwys 8 etholaeth. Wrth gyfrif y pleidleisiau fe fydd cyfanswm pob plaid yn cael ei rannu â 2 am bob un AC sydd ganddynt eisoes yn eu rhanbarth; ei rannu â 3 os bydd 2 aelod ganddynt ,â 4 os bydd 3 ac yn y blaen. Nifer fach o Aelodau rhanbarthol felly sydd gan y Blaid Lafur yn y De am fod ganddynt gymaint o ACau etholaeth yn barod. Yn yr un modd prin yw'r aelodau rhanbarthol sydd gan Blaid Cymru yn y Gogledd.



*Bydded hysbys y cynnelir*

EISTEDDFOD

MYNYDDISLWYN,

YN

YNYSDDU,

DYDD LLUN SULGWYN, 1873.

PRIF ddarn côrawl,—"Nant y Mynydd." Gwobr Pum Gini, yn nghyd a *chromatic pitch-fork* i'r arweinydd.

*Llywydd.*—D. S. Lewis, Ysw., Penrhiwffranc.
*Beirniaid.*— Y Rhyddiaeth a'r Farddoniaeth — Islwyn.
Yr Adroddiadau a'r Areithiau—Y Vicar.
Y Gerddoriaeth—Rees Lewis, Ysw., (Eos Ebrill).
*Programme*, yn cynnwys y manylion, i'w gael gan yr sgrifeuydd, pris ceiniog, trwy y *post* ceiniog a dimai.
E. Williams, Ysg., Pontllanfraith, Mon.

## Dogfenni

Gyrrwyd y poster hwn atom gan ein darllenwr a'n dosbarthwr, Byron Shide.

Ynghyd â hwn cawsom gopi o ddogfen yn dwyn y teitl "Partin Dwbwl". Hen lyfr wedi'i ysgrifennu yn nhafodiaith yr ardal hon.

Mae'r gyfrol lawer iawn yn rhy hir i'w chyhoeddi yn y papur bro ond eto mae'r cynnwys o ddiddordeb mawr.

Nid dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn eitem sydd lawer yn rhy hir i'w gyhoeddi ac felly mae'n fwriad gennym ffurfio archif ar wefan "Cwm*ni*". Ynddo gallwn grynhoi'r erthyglau niferus am ddatblygiad ein Hysgolion Cymraeg.

Cewch wybod mwy am y datblygiadau hyn yn y dyfodol agos

*Y Golygydd*

# Merched y Wawr Cwm Rhymni

## "Yn ddigidol, yn ddiogel!"

Bathodd ein trysorydd, Jenni Jones-Annetts, arwyddair newydd y gangen: "Yn ddigidol, yn ddiogel!", ac mae'n crisialu **penderfyniad pwyllgor y gangen i ganslo pob un o'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y misoedd nesaf.**

Mae'n siom i bob un ohonom, ond fe fyddai'n hurt i barhau i gwrdd yn ystod y cyfnod hwn. Er mor ymddangosiadol dawel mae popeth ar hyn o bryd - ar wahân i'r archfarchnadoedd! - mae'n bur debyg taw math o "Ryfel Ffug" ("Phoney War ") yw hwn, a bod storom o salwch yn cerdded yn araf tuag atom.

Digwyddodd y "rhyfel ffug" enwocaf rhwng Medi 1939, pan gyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn Hitler. Ni fu unrhyw ymladd wedyn tan Ebrill 1940, a llawer yn meddwl ni fyddai rhyfel yn digwydd wedi'r cyfan. Yna aeth lluoedd yr Almaen yn gyflym trwy'r Iseldiroedd a Ffrainc a dechreuodd y rhyfel o ddifrif.

Rhoddodd y Rhyfel Ffug amser i'r Cynghreiriaid gynllunio a pharatoi: boed i ninnau hefyd fanteisio ar y cyfnod tawel hwn. Mae'r cyfryngau cymdeithasol amrywiol gennym nawr, heb sôn am yr hen ffôn, ac mae'r dyddiau hyn yn gyfle i gael sgwrs hamddenol gyda hen ffrind, gorffen rhyw brosiect fu ar y gweill am oesoedd, meistroli crefft neu iaith - mae posibiliadau di-ri. Mae llawer o hyfforddiant ar gael ar y we - felly "Yn ddigidol, yn ddiogel, yn ddysgedig!"

Bydd rhai ohonom hefyd yn ymarfer y sgiliau cyfrifiadurol newydd a ddysgasom yng ngwersi Gwyneth Davies yng Nghanolfan y Glowyr. Mae Gwyneth, sy'n hyddysg yn y maes hwn, yn trefnu Grwp WhatsApp newydd sbon ar gyfer y gangen, fel bod modd i ni gadw mewn cysylltiad yn gyflymach. Os hoffai unrhyw aelod ymuno gyda ni, rhowch wybod i Gaynor Williams. Mae ei manylion cyswllt yn eich rhaglen.

Daw haul ar fryn ryw ddydd a bydd Merched y Wawr Cwm Rhymni yn ail-ymgynnull cyn gynted â bo modd. Efallai bydd sgiliau newydd gan rai ohonom erbyn hynny!

*Dr Elin Jones*

# Barddoniaeth Eisteddfod y Cymoedd 2019

## Gobaith

Yn y cwm, dan bwysau trwm y tlodi,
Yn gaeth heb waith na chwant bodoli.
Banciau bwyd- nid breuddwyd yw hyn….
Ond hunllef mewn pentref diamddiffyn.
Celwydd gan wleidydd a'i addewidion,
Cwestiynau am gamau anghyfreithlon.
Cenedl heb anadl yn brwydro am aer,
Fe ddaeth hunanreolaeth yn aml air.

Casglwyd miloedd ar strydoedd a chamu,
Ymlaen dros iaith, mae'r orymdaith yn cyflymu.
Torf â ffydd bod y dydd yn dod,
Lle bydd hawl i sawl rannu awdurdod.
Ydyn, mae'r werin yn cofio Tryweryn,
Ac i ni, y Cymry, enw'r bont yw Llywelyn.
Yn eich crysau coch a ddowch i'r gâd?
Oes gobaith annibyniaeth i Gymru fy ngwlad?

'Idwal Meredith' (Kelly Hanney)

### Cystadleuaeth 37. Englyn

**Brexit**

I'r diawl â'r cawl a'r celwydd - y gweiddi
ar goedd a glywn beunydd.
Awn draw i fynd ar drywydd
yr hewl tua'r Gymru Rydd.

**Ffugenw** 'Eddie'
(John Lloyd)

**Brexit**

Ar fy ngwar mae ysgariad a bwgan
yn bygwth bob eiliad.
Wy'n stond, mewn tipyn o stad
cyn y nos, cyn ynysiad.

Ffugenw: Dai Dando

# Bore Coffi Cyfreithwyr JCP, Caerffili

Mae unigrwydd yn fwy niweidiol i'n hiechyd na smygu, yn ôl rhai arbenigwyr. Yn sicr mae unigrwydd yn pwyso'n drwm ar lawer yn ein cymdeithas heddiw. Felly croesawodd Hafal gynnig ein partneriaid, Cyfreithwyr JCP, i gynnal boreau coffi mewn sawl tref yn y de, gan roi gwahoddiad i unrhyw un a deimlai awydd am sgwrs gyfeillgar dros baned i alw heibio. Atyniad ychwanegol fyddai cael cwmni un o sêr y byd rygbi dros y paned hwnnw, sef Dafydd James, y cyn-chwaraewr rhyngwladol!

Mae Dafydd wedi siarad yn agored iawn am ei brofiadau personol, ac mae ei agosatrwydd a'i ddiffuantrwydd yn helpu pobl i siarad yn agored gydag ef – ac i oresgyn y sioc o ddod wyneb yn wyneb gydag un o'u harwyr.

Diwrnod o wynt a glaw trwm oedd hi yng Nghaerffili ar Chwefror 28ain, ond roedd croeso arbennig yn disgwyl y rhai a frwydrodd eu ffordd i'r Clwb Cymdeithasol yng nghanol y dre y bore hwnnw. Roedd staff JCP wedi darparu'n hael ar eu cyfer, a manteisiodd nifer ar eu cymorth proffesiynol yn ogystal â'u croeso. Mae cymaint yn haws i drafod problem neu ofid mewn awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol, ac mae cael sylw arbenigwr yn fraint arbennig.

Diolch yn fawr i Dafydd ac i Gyfreithwyr JCP am y cyfle i gymdeithasu – gobeithio caiff Caerfyrddin a'r Bontfaen well tywydd ar gyfer eu boreau coffi hwythau: gwn y bydd y lluniaeth yn rhagorol a'r croeso yn un mor wresog.




*Dafydd James yn mwynhau paned yng nghwmni dwy o staff croesawgar JCP, sef Cherrie Powell, Ymgynghorydd Cyfreithiol, Cynllunio Gydol Oes, a Christina Coates, Uwch Gysylltydd Marchnata.*

*cyfreithwyr JCP*

# Colofn Dafydd Islwyn



*Steffan Lewis (1984-2018)*

Dros y ffordd i'r Smith's Arms mae Islwyn Close, yn dwyn i go' y Parchedig William Thomas (1832-1878), y bardd Islwyn. "Yn wir, daeth bardd gorau erioed Cymru - yn fy marn i , o leia - o bentref diwydiannol yma yng Ngwent. Y bardd Islwyn o bentref Ynysddu yng Nghwm Sirhywi," oedd sylw'r diweddar Steffan Lewis (1984- 2018) yn y Genedlaethol yn y Fenni (2016). Yn y gyfrol, "Gwladgarwr Gwent, Cofio Steffan Lewis", a gyhoeddwyd ddiwedd llynedd i gofio un o wleidyddion mwyaf addawol Cymru, cyhoeddwyd dau englyn coffa iddo, un gan Jim Parc Nest ac un gan Annes Glyn:

Bu amser a'i fryder mor fên heddiw:
fe ddiffoddodd seren
ddisgleiriaf ein ffurfafen
a'i dwyn hi, cyn pryd, yn hen.

Nacau'u hangen diangen, ni allwn
ond gallu pob seren
yn aros drwy nos ein ne
yn olau, er troi'n gelain.


Meddai Annes Glyn:

Er gaeaf o gyflafan – ac oerwynt
yn gur i fflam egwan
enaid yw sy'n dal ar dân
nid diffodd a wna Steffan.

Yn ei ddydd fe weithiodd Islwyn nifer fawr o englynion coffa, er enghraifft ar 24ain o Fawrth 1870, er cof am Henry Williams, a'i wraig o Ynys Howell, Machen, "aelodau ffyddlon eglwys y Bedyddwyr Tonyfelin, Caerffili".

Mor gu, yn Iesu, isod – y cysgant!
Ac esgyll y Duwdod
Drostyn' i'w ddiffyn, nes dod
Yn iach i Seion uchod.

Roedd Islwyn wedi penderfynu cystadlu yn Eisteddfod y Cymreigyddion, Y Fenni, yn 1853. Ar ôl gweithio ei gerdd bu'n crafu ei ben am ffugenw. Awgrymodd ei frawd yng nghyfraith, y Parchedig Daniel Jenkins, gweinidog Capel y Babell, Cwmfelinfach, yr enw "Islwyn" iddo. Derbyniodd y cyngor a phan atebodd i'r enw hwnnw, anogodd Arglwyddes Llanofer, Gwenynen Gwent (1802-1896) ef i'w fabwysiadu fel ei enw barddol ac o'r diwrnod hwnnw dyna'r enw a osodai wrth ei holl gyfansoddiadau. Yn ôl Gwenallt, "Bu Islwyn yn gystadleuydd mawr yn yr eisteddfodau a chystadleuydd aflwyddiannus ar y cyfan." Testun un gystadleuaeth yn y Genedlaethol, Aberystwyth 1865, un o wyth eisteddfod cyfnod cyntaf y Genedlaethol oedd "Y Fodrwy Briodasol". Cystadleuodd ugain. Yn eu plith yr oedd Islwyn a Ceiriog. Enillwyd y wobr gan Sarah Jane Rees, Pont Garreg ger Llangrannog, y bardd Cranogwen (1839-1916) un o gymeriadau hynodaf ein cenedl.



*William Thomas (Islwyn)1832 -1878*

Am ugain mlynedd olaf ei bywyd bu'n byw gyda chyfeilles, Jane Thomas, yn Green Park, Pont Garreg. Yn 1923 symudodd teulu Suzanne i fyw yno! Yn ôl pob sôn roedd gan Islwyn gryn feddwl ohoni fel y dengys ei gân, "Llangrannog".

Cofnod o lyfr log "Pengam Board School" a gyhoeddwyd yn y llyfr, "Pengam Board School", gan G. H. Hardwick yn 1980, am ddydd Mercher, 15fed o Fehefin 1932 oedd, "during the morning, lessons were given to all classes on Islwyn. School closes for the afternoon."

'Na ni, nes dechrau canu ei emyn adnabyddus, "Gwelwch uwchlaw cymylau amser", pan arhosodd fy mws mewn arhosfan. Pam tybed na chafodd yr emyn ei gynnwys yn Caneuon Ffydd? Yn lle canu, ailadroddais i mi fy hun gwestiwn T. I. Ellis yn 1958 yn ei gyfrol, "Crwydro Mynwy". "Faint a ŵyr plant ei fro am Islwyn heddiw tybed?"

# Bangla Cymru Rhan 1 - 2020



*Dr Jishu wrth ei waith*

Fel sy'n hysbys i bob un ohonoch, mae BanglaCymru yn dal mewn bodolaeth a chyn brysured ag erioed. Treuliais ddeunaw diwrnod yn Bangladesh yn ddiweddar a gwelais â'n llygad fy hun y gwaith da sy'n digwydd o ddydd i ddydd. Rwy'n derbyn tri adroddiad misol gan Dr Jishu, ein cydlynydd meddygol sy'n cynnwys adroddiad ariannol, diweddariad ar waith ein canolfan feddygol a hefyd hynt a helynt ein meddygfa symudol.

Yn ystod f'arhosiad teithiais gyda thîm meddygol BanglaCymru i ddinas Tangail, tua chan milltir i'r gogledd o'r brifddinas, Dhaka. Mewn ysbyty yn y ddinas hon fe drefnwyd bod cleifion yn dod i gael eu hasesu ar ein diwrnod cyntaf yno, ac fe benderfynwyd bod 38, yn fabanod a phlant bach gan fwyaf, yn gymwys ac abl i wynebu'r llawdriniaeth. Treuliwyd y dyddiau nesaf yn gweithio ar ddau fwrdd llawdriniaeth o 9.00yb tan oriau mân y diwrnod canlynol. Cyflawnwyd y gwaith ond, ychydig ar ôl gadael, daeth neges i law fod tri chlaf arall wedi cyrraedd yn rhy hwyr i gael eu trin, ac fe drefnwyd eu bod yn teithio i Chittagong ychydig ddyddiau wedyn i gael y driniaeth fel sydd wedi digwydd i sawl un arall yn ystod ein blwyddyn ariannol.

Ar ddiwedd ein cyfnod yn Tangail cawsom ein gwahodd i gwrdd â chadeirydd gweithredol Cymdeithas Gwasanaethau Cymdeithasol dinas Tangail, Mr Abdul Hamid Bhulyan. Codwyd fy nghalon yn fawr, pan soniodd am roi statws arbennig i'n prosiect i'w noddi a'i barhau fel darpariaeth sylfaenol yn y rhanbarth. Mae hyn yn newyddion arbennig o gadarnhaol nid yn unig i mi a'n cefnogwyr ond hefyd i Dr Jishu o gofio bod yr elusen yn dod i ben ymhen tua dwy flynedd.

Treuliais amser hefyd yn ein canolfan gyda staff BanglaCymru, sef Dr Dippa, Sulika ein hymwelydd iechyd, y gofalwr ac wrth gwrs Dr Jishu. Trefnwyd dwy feddygfa symudol yn ystod f'amser yn Chittagong; un yn y slymiau a'r llall ar ynys nid nepell, le nad oes unrhyw ddarpariaeth feddygol.



*Tîm meddygol BanglaCymru*

Ers dechrau blwyddyn ariannol BanglaCymru, sef Gorffennaf 1af, 2019 mae'r elusen wedi rhoi llawdriniaeth i 50 o gleifion hollt (*cleft*) sy'n dod â'n cyfanswm ers sylfaenu'r elusen i 1,410. Rwyf unwaith eto'n diolch o waelod calon i chi am eich cefnogaeth, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd ar ddod byddaf yn anfon f'adroddiad blynyddol atoch.

Wil (Morus Jones)



*Wil gyda Mr Abdul Hamid*

# Colofn y Dysgwyr


gan Ann Lewis

Teitl cerdd y mis yma yw 'Pres y Palmant' gan y prifardd Robat Powell. Mae'n disgrifio rhywun sy ar ei ffordd i'r sinema un noson. Mae'n gweld dyn di-gartref yn gwerthu 'r *Big Issue* ac yn prynu copi. Wedyn, does dim digon o arian ar ôl i dalu am weld ffilm ac mae'n rhaid mynd adref. Mae'n siomedig iawn ond mae'n teimlo'n well wrth feddwl ei fod wedi helpu rhywun anffodus. Cofiwch mai 'pres' yw gair pobl y gogledd am arian.

Pasg Hapus i chi i gyd er gwaetha'r firws!

### Pres y Palmant

Pres, pres,
fel aur,
Pedwar darn punt
Cryf, crwn,
Fel aur yn fy llaw.



Dyma'r allweddi
I ddrws Star Wars
Yn sinema'r dre.
Pedwar darn am docyn,
Pedair allwedd i agor y drws.

Ond pwy ydy hwn
Ar y palmant oer?
Y llygaid cryf, crwn,
Yn wag heno
Fel y nos.
"*Big Issue* syr? Dim ond punt……"



Dim ond punt? Ond dw i eisiau pob punt
Am docyn i'r sêr!
*Star Wars* neu'r *Big Issue?*
Fi – neu fe?


Cerdded adre. *Big Issue* yn fy llaw.

Ond , heno, fydd y palmant ddim mor oer.

*prifardd: bardd wedi ennill cadair neu goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol* *di-gartref : homeless*
*siomedig:disappointed* *anffodus:unfortunate* *aur:gold*
*crwn : round* *allwedd (i): key (s)* *yn wag : empty*

### Atebion Posau'r Plant ar dudalen 7



## PWYSIG

Diolch o galon i'r 61 o danysgrifwyr sydd wedi ymateb i'n hapêl ar i'r sawl sy'n talu am y papur drwy Orchymyn Banc. Ond, er bod yr ymateb llawer gwell na'r disgwyl y ffaith yw bod bron i hanner y rhif hwn yn dal heb lenwi'r ffurflen newydd.

Mae'n hanfodol fod y papur ddim yn colli incwm felly wnewch chi gwblhau'r ffurflen amgaeedig a'i gyrru yn ddiymdroi at ein Trysorydd, ond gofynnwch i'r banc **beidio** gweithredu'r gorchymyn **CYN MIS MAI.**

Dewch ymlaen gwnewch e HEDDIW!

**Cwmni**

Gwaran Archeb Barhaol — *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr — *To the Manager*

............................Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/Building Society*

Cyfeiriad y Banc........................................................*Bank Address*

Debydwch o fy nghyfrif £10 ar y 3ydd o fis ..........................................
bob blwyddyn gan ddechrau ym mis ............................ 202..... neu
nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit from my account £10 on the 3rd of ................................*
*(month) annually starting in the month of ................................202....*
*or until I advise you to the contrary*

Yn daladwy i: — *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| Barclays, Caerffili | Cwmni | 20—98—68 | 13980030 |

Enw(au) ar y Cyfrif — *Name(s) on the Account*

___- ___-___ Cod Didoli *Sort Code*

Rhif y Cyfrif/ *Account Number*

Eich Cyfeiriad — *Your Address:*

..................................................................................................

..................................................................................................

Cod Post *Post Code* ......... Rhif Ffôn/*Phone No*...........................

Llofnod *Signature:*.......................Dyddiad *Date:*.........................

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda at y Trysorydd:

Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed CF82 8HP
NID i'r Banc.

## IMPORTANT

*Heartfelt thanks to the 61 subscribers who have responded to our appeal to those who pay for the paper by Bankers' Order. But, even though the response was better than expected the fact is that nearly half that number have yet to complete the new form.*

*It's vital that the paper should not lose income. Would you please complete the attached form and return it without delay to our Treasurer, but please ask the bank **not to** implement the order **BEFORE MAY.***

*Come on, let's do it TODAY!*